**Y Pwyllgor Diwylliant CC-5-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 27 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Adam Peat (Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant)

Margaret Evans (Pennaeth, Cyfadran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

Prys Davies (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

Mary Davies (Cyfadran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Rosemary Butler – Cadeirydd Bwrdd Cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

- Dafydd Wigley – ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru.

**Cyflwyniad**

- Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y byddai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystyried yr Adolygiad o'r Gymraeg ar 6 Mawrth ac y byddai Delyth Evans yn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor Diwylliant.

- Byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth yn cynnal seminar amser cinio ar ddrafftio deddfwriaeth yn dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Diwylliant.
- Derbyniodd y Cadeirydd yn ffurfiol ddeiseb a gyflwynwyd iddo gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn galw am Ddeddf Iaith Gymraeg newydd.

**<u>Eitem 1: Adolygiad o'r Iaith Gymraeg:</u>**

**Papur: CC 5-02 (p.1-2a)**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cadeirydd. Dywedodd fod gan y Pwyllgor dri phapur gerbron: dadansoddiad o'r dystiolaeth a dderbyniwyd, papur safbwynt yr oedd ef wedi ei lunio ar y cyd â'r

Ymgynghorydd Arbenigol, a phapur a geisiai ddiffinio dwyieithrwydd. Gofynnodd i'r aelodau am sylwadau ar sut y gwelent eu blaenoriaethau hwy.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

Statws yr iaith/deddfwriaeth newydd:

- Roedd barn wrthgyferbyniol yngl•n â'r angen am ddeddfwriaeth newydd. Ffafriai rhai aelodau ddeddfwriaeth newydd, neu o leiaf newid i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Teimlai aelodau eraill fod y galw am ddeddfwriaeth newydd wedi ei gyfyngu i nifer fechan o garfanau pwyso ac y byddai troedio'r llwybr tuag at ddeddfwriaeth newydd yn tynnu sylw'r Pwyllgor oddi ar ei flaenoriaethau eraill.
- Mynegodd rhai aelodau bryder ynghylch y costau y byddai deddfwriaeth newydd yn eu golygu.
- Dywedodd y Gweinidog fod costau yn ffactor perthnasol ac y byddai'n rhaid tynnu arian o fannau eraill yn y gyllideb i dalu am gynigion costus. Ychwanegodd fod camau ar y gweill i ddod â Chymdeithasau Tai dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a bod y cyfleustodau cyhoeddus hefyd yn cael eu hystyried. Gofynnodd i'r Pwyllgor ohirio unrhyw benderfyniad ar ddeddfwriaeth newydd bosibl hyd nes y byddai wedi cyflwyno'r cynigion hynny.
- Ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, cytunodd Dafydd Wigley AC y byddai'n llunio papur yn nodi'r newidiadau posibl i'r Ddeddf bresennol; gofynnwyd i Gwyn Griffiths lunio papur ar sut y gellid gwneud defnydd gwell o'r ddeddfwriaeth fel y mae.

Materion eraill

- Mynegodd un aelod bryder ynghylch safoni'r iaith a'r angen i wneud yr iaith yn haws ei defnyddio. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am waith Canolfan Bedwyr, Bangor, canolfan bwysig a weithiai ym maes safoni'r iaith. Roedd creu cyrff ychwanegol, fel yr academi safoni iaith a awgrymwyd gan yr Athro Colin Williams, hefyd yn peri peth pryder. Ffafriai rhai aelodau gryfhau gweithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn hytrach na chreu cyrff newydd.
- Gwnaed sylwadau gan aelodau hefyd am yr angen i gadw ewyllys da pob plaid ar fater yr iaith. Awgrymwyd hefyd bod llawer o'r camau y gellid eu cymryd er mwyn cynnal yr iaith, e. e. ym meysydd addysg feithrin a chynllunio, y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor hwn. Roedd y Cabinet wedi derbyn y byddai'r adroddiad yn cael effaith ar draws y Cynulliad i gyd.
- Bu peth trafod ar fewnfudo ac allfudo. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau am ddarn allweddol o dystiolaeth gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro a gyfeiriai at yr angen i greu cymunedau cynaliadwy. Cytunai'r Pwyllgor fod hwn yn gysyniad pwysig y dylid ei adlewyrchu yn ei argymhellion. Nodwyd hefyd bod gwell isadeiledd trafnidiaeth yn ffactor

allweddol a fyddai o fudd i'r iaith.

- Bu peth trafod hefyd ar y diffyg tai fforddiadwy yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Crybwyllodd yr aelodau y diffyg ystadegau a'r prinder gwybodaeth am y stoc bresennol o dai; teimlai'r Cadeirydd y byddai archwiliad o'r stoc o dai yn fuddiol.

**Papur: CC 5-02 (p.2a)**

Cyflwynwyd y papur gan y Cadeirydd. Dywedodd mai papur safbwynt a oedd yn datblygu oedd hwn a geisiai nodi rhai syniadau ar gyfer dyfodol yr iaith.

Nodwyd y sylwadau hyn yn y drafodaeth:

- Mynegwyd peth pryder yngl•n â'r syniad o greu pwerdy i'r iaith i roi cychwyn i strategaeth genedlaethol. Teimlai'r aelodau mai'r Cynulliad Cenedlaethol, ar y cyd â Bwrdd yr Iaith, ddylai fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth o'r fath.
- Roedd amheuaeth hefyd yngl•n â'r syniad o "Gymanfa Bro", i ddwyn ynghyd a chydlynu partneriaethau cymunedol eraill. Awgrymwyd y gellid ymestyn swyddogaethau'r Mentrau Iaith neu'r awdurdodau lleol i gynnwys y gwaith hwn.
- Amheuai un aelod hefyd werth creu Fforwm neu Rwydwaith Parhaol ar y Rhyngrwyd ar gyfer pob corff a weithiai ar brosiectau yn ymwneud â'r Gymraeg. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y cynnig hwn.
- Roedd cytundeb ynghylch pwysigrwydd y Mentrau Iaith a theimlad y dylid cyfnerthu eu gwaith hwy. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd fod strategaeth iaith Cyngor Sir Caerfyrddin yn lasbrint posibl ar gyfer cynllunio iaith gan awdurdodau lleol.

- Roedd gan aelodau eu hamheuon ynghylch y cysyniad o gronfa gymunedol i ariannu cynlluniau newydd yn y Gymraeg. Teimlai rhai fod cysyniad o'r fath yn creu rhaniadau ac y byddai'n achosi gelyniaeth, ac roedd eraill yn cytuno y byddai croeso i gronfa ar gyfer busnesau cymunedol dros Gymru gyfan. Teimlai aelodau y dylai cyrff fel Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Bwrdd Croeso Cymru arwain yn y maes arbennig hwn.

**Papur: CC 5-02 (p.2b)**

Ymgais i ddiffinio dwyieithrwydd oedd y papur hwn. Nodwyd y sylwadau canlynol yn y drafodaeth:

- Mynegodd aelodau bryderon ynghylch y diffiniad arfaethedig. Roeddent yn derbyn bod angen diffiniad, ond teimlent fod y diffiniad a oedd gerbron yn hirwyntog ac academaidd, ei fod yn canolbwyntio gormod ar agweddau addysgol dwyieithrwydd ac nad oedd digon o bwyslais ynddo ar ddwyieithrwydd fel mater o gyfle cyfartal. Awgrymwyd y gellid defnyddio cysyniadau graddoliaeth a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio iaith mewn unrhyw ddiffiniad.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gyflwyno eu diffiniad eu hunain o ddwyieithrwydd i'r Clerc erbyn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd yr aelodau am gael symud ymlaen i drafod blaen raglen waith y Pwyllgor.

**Eitem 4: Blaen raglen waith y Pwyllgor a rhaglenni gwaith Pwyllgorau Eraill – CC-5-02(p.5)**

Nodwyd y sylwadau canlynol wrth drafod:

- Roedd gwahanol farn ar faint o amser y dylai'r Pwyllgor ei dreulio ar ei adolygiad arfaethedig o chwaraeon. Teimlai rhai aelodau y dylid neilltuo'r un faint o amser iddo ag i'r Gymraeg, a theimlai eraill y dylai gael llai o amser.
- Roedd pryder bod y cyfarfod ar chwaraeon a drefnwyd ar gyfer 17 Gorffennaf yn cael ei gynnal yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn hytrach nag mewn lleoliad chwaraeon.
- Apeliodd un aelod i'r adroddiad ar y Gymraeg gael ei lofnodi mewn cyfarfod dydd Mercher yn hytrach nag ar brynhawn Iau.
- Roedd y Gweinidog am gael ychydig o amser cyn dechrau'r adolygiad polisi nesaf. Teimlai y gellid neilltuo'r cyfarfodydd ym mis Gorffennaf i fusnes arferol y Pwyllgor, megis y drafodaeth ar y gyllideb a chyflwyniad gan y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Teimlai'r Gweinidog hefyd fod angen dwy sesiwn drafod ar flaenoriaethau'r gyllideb ac ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor.
- Gorffennodd y Cadeirydd trwy ddweud y byddai'r amserlen yn cael ei haddasu i adlewyrchu pryderon yr Aelodau ac y câi cyfarfod 17 Gorffennaf ei gynnal mewn lleoliad chwaraeon.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog – CC-5-02(p.3)**

Eglurodd y Gweinidog sut roedd y broses o ailwampio Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynd rhagddi. Roedd Sybil Crouch wedi ei hailbenodi yn Gadeirydd am flwyddyn arall, i gwblhau'r broses ailwampio, ac wedi hynny byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu.

Nodwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Pwyswyd ar y Gweinidog i roi ystyriaeth i fater marwolaeth deifwyr yn Chwarel Dorothea. Atebodd hithau iddi gael cyfarfod ffrwythlon yn Nghaernarfon yn ddiweddar a drafododd fater diogelwch fel rhan o ffurfio'r Fforwm Ymwybyddiaeth o Weithgareddau Awyr-agored. Bydd y pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ddiweddar am ddatblygiadau yn adroddiad nesaf y Gweinidog.

- Bu peth trafod ar bosibilrwydd trosglwyddo materion CADW i gylch gwaith y Pwyllgor Diwylliant. Dywedodd y Gweinidog y dylai'r Pwyllgor, os oedd yn teimlo'n gryf yngl•n â hyn, ysgrifennu at Brif Weinidog y Cynulliad. Gofynnodd i'r aelodau aros tan ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar yr adolygiad Pum-mlynedd ar Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Wrth ateb cwestiwn am drosglwyddo Casgliad Celf Cymru, dywedodd y Gweinidog i'r

casgliad gael ei rannu ymhlith llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys colegau ac ysbytai. Pan ofynnwyd iddi pam nad oedd T• Turner ym Mhenarth ymhlith y cyrff hynny, atebodd y Gweinidog mai Cyngor Celfyddydau Cymru oedd yn gwneud penderfyniadau yngl•n â'r union leoliadau.

- Bu peth trafod ar gynllun busnes Gardd Fotaneg Cymru. Dywedodd y Gweinidog fod yr Ardd yn dal i gasglu'r ystadegau perthnasol a rhoi ffurf derfynol ar ei chynllun busnes. Roedd y ddwy ochr yn awyddus i symud ymlaen â'r prosiect hwn ond dim ond ar sail amcan-ffigurau cadarn yngl•n ag ymwelwyr a chynllun llwybr critigol o'i rhaglen gyfalaf y byddid yn gwneud hynny.

- Dywedodd y Gweinidog ei bod unwaith eto wedi tynnu sylw Comisiwn y Loteri Genedlaethol at yr angen i gynyddu'r gyfran o arian Loteri a gâi ei gwario yng Nghymru.

**Eitem 3: Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg - Cyrff Cyhoeddus 2002**

Gofynnodd y Gweinidog am farn y Pwyllgor ar y cynnig i gynnwys 17 o gyrff cyhoeddus yn Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad dan Adran 6 (1)(0) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd y rhestr yn cynnwys 12 o gyrff cyhoeddus newydd fel y Cynghorau Meddygol a Deintyddol Cyffredinol, Comisiynydd Plant Cymru a chyrff eraill yr oedd eu henwau wedi newid fel Cyngor Gofal Cymru. Trafodir y rhestr mewn sesiwn lawn ddiwedd Mai. Gorffennodd y Gweinidog trwy ddweud y byddai'r cylch ymgynghori nesaf yn cynnwys Cymdeithasau Tai ac y byddai hi'n gofyn am farn gyfreithiol yngl•n â phosibilrwydd cynnwys y cyfleustodau a breifateiddiwyd.

Nodwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Wrth ateb cwestiwn yn holi pa gorff a oedd wedi gwrthwynebu cael ei gynnwys yn y Gorchymyn, atebodd swyddogion mai Consignia oedd hwnnw, sef y cwmni cyfyngedig cyhoeddus a oedd wedi cymryd lle Swyddfa'r Post. Roedd eu gwrthwynebiad wedi ei gyfeirio at Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol am gyngor pellach. Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn yn ei hadroddiad nesaf.
- Cytunodd swyddogion hefyd i edrych a oedd Prifysgol Morgannwg wedi ei gynnwys mewn gorchymyn blaenorol.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror ym Mhontyberem – CC-5-02(min)**

Cymeradwywyd y rhain heb eu newid.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**